**CYDBWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT AC IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL**
**30 MEHEFIN 2023**

Cofnodion cyfarfod y Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Iau, 30 Mehefin 2022.

**YN BRESENNOL:**
Y Cynghorwyr Helen Brown, Mel Buckley, Teresa Carberry, Tina Claydon, Bill Crease, Paul Cunningham, Gladys Healey, Andy Hughes, Dave Mackie, Gina Maddison, Hilary McGuill, Andrew Parkhurst, Michelle Perfect, Carolyn Preece, David Richardson, Jason Shallcross a Linda Thomas

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Lynn Bartlett

**YMDDIHEURIADAU:** Mrs Wendy White

**CYFRANWYR:**
y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden; y Cynghorydd Christine Jones, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles); Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol),
Uwch-reolwr (Gwella Ysgolion) (ar gyfer eitem 4),
Uwch-reolwr (Diogelu a Chomisiynu) (ar gyfer eitem 4),
Uwch-reolwr (Plant a'r Gweithlu) (ar gyfer eitemau 5 a 7),
Uwch-reolwr (Ymgynnwys a Chynnydd) (ar gyfer eitemau 6 a 7),
Ymgynghorydd Dysgu Iechyd, Lles a Diogelu (ar gyfer eitem 8).

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Cunningham benodi Hilary McGuill yn Gadeirydd ar y cyfarfod. Eiliwyd y cynnig hwnnw gan y Cynghorydd Dave Mackie.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Hilary McGuill yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. DATGAN CYSYLLTIADAU (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 3. RHAGLENNI LLYWODRAETH CYMRU - HAF O HWYL, GAEAF LLAWN LLES

Wrth gyflwyno'r adroddiad rhoes y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) ddisgrifiad manwl o'r rhaglenni llwyddiannus "Haf o Hwyl" a "Gaeaf Llawn Lles", gan gadarnhau y rhannwyd y wybodaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor Trosolwg a

Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant ym mis Rhagfyr 2021. Roedd yr adroddiad arfarnu cenedlaethol yn dangos mor bwysig oedd y rhaglenni hyn i bobl ifanc ac roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddarparu ychwaneg o gyllid gydol y gaeaf ac eto ar gyfer y rhaglen eleni.

Rhoes y Prif Swyddog fraslun o'r prif amcanion a'r gweithgareddau a ddarparwyd, a soniodd am y cydweithio rhwng y Cyngor a phartneriaid (llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden Aura, gofalwyr ifanc, Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru, Menter Iaith Sir y Fflint a Wrecsam, a Theatr Clwyd) yn ogystal â'r timau a fu'n cynorthwyo. Rhannodd wybodaeth ynglŷn â'r modd y dosberthid y cyllid o £276,000 er mwyn anelu'r gefnogaeth at deuluoedd bregus, ac eglurodd sut y bwriedid hyrwyddo hyn i deuluoedd. Darparwyd y rhaglen ochr yn ochr â'r cynlluniau'r oedd y Cyngor eisoes wedi'u darparu ar y cyd â Chynghorau Tref a Chymuned.

Gofynnodd y Cadeirydd gwestiynau ynglŷn â darparu bwyd, hygyrchedd a chofrestru, a chadarnhaodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) y darperid bwyd yn y digwyddiadau Haf o Hwyl ond nid yng nghynlluniau chwarae'r Cyngor, gan fod Llywodraeth Cymru wedi galluogi teuluoedd oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim i dderbyn taliadau uniongyrchol yn ystod y gwyliau. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno, serch hynny, i ddarparu rhywfaint o fwyd a byrbrydau yn y cynlluniau chwarae. Wrth sôn am hygyrchedd, dywedodd y Prif Swyddog y cynhelid y gweithgareddau ar wasgar ledled y sir, gyda'r nod o alluogi cynifer o deuluoedd â phosib i gymryd rhan yn eu cymunedau lleol.

Wrth ateb cwestiwn gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst ynglŷn â'r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig, cadarnhaodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) y darperid gweithgareddau ledled y sir a chytunodd y byddai'n dosbarthu gwybodaeth berthnasol ar ôl y cyfarfod. Cadarnhaodd fod y rhaglen yn targedu plant agored i niwed yn benodol gyda chymorth y timau Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaethau Plant. Darparwyd gwybodaeth hefyd ynglŷn â threfniant cyfeillio er mwyn galluogi plant i gymryd rhan mewn cynlluniau chwarae lleol.

Holodd y Cynghorydd Andy Hughes ynglŷn â hyrwyddo'r digwyddiadau hyn a chadarnhaodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) y defnyddiwyd cyfryngau cymdeithasol, y gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd a phob dull posib arall i hyrwyddo'r rhaglen. Gofynnodd i'r Aelodau a fedrent gynorthwyo wrth drosglwyddo'r neges. Dywedodd y Cadeirydd fod manylion am y rhaglen ar wefan ei Chyngor Cymuned a bod ysgolion lleol yn cynnwys gwybodaeth yn eu newyddlenni.

Holodd y Cynghorydd Gladys Healey ynglŷn â'r cynllun chwarae yn yr Hôb, a chadarnhaodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) y cysylltwyd â Chynghorau Tref a Chymuned yn gynharach yn y flwyddyn i gynnig cydweithio wrth gynnal cynlluniau chwarae yn yr haf, a chytunodd y byddai'n siarad â'r Cynghorydd Healey ar ôl y cyfarfod. Ni rannwyd gwybodaeth am yr Haf o Hwyl gan mai'r Cyngor Sir oedd yn ei gynnal.

Dymunai'r Cynghorydd Andrew Parkhurst sicrhau fod y Cynghorau Tref a Chymuned yn gwybod am y rhaglen Haf o Hwyl a bod yr holl deuluoedd mewn cymunedau gwledig yn medru cymryd rhan yn y rhaglen. Dywedodd y Prif

Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yr anfonwyd gwybodaeth am y Cynllun Chwarae ond nid am yr Haf o Hwyl gan mai'r Cyngor oedd yn ei gynnal, ond cytunodd y byddai'n codi'r mater yn y cyfarfodydd cynllunio strategol.

Diolchodd y Cynghorydd Teresa Carberry i'r holl swyddogion a phartneriaid a fu'n rhan o'r gwaith.  Cytunodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) y byddai'n cyfleu diolchiadau'r pwyllgor i'r tîm.

Cynigiodd y Cynghorydd Dave Mackie ddilyn yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad, ac eiliodd Mrs Lynne Bartlett y cynnig hwnnw.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Cydbwyllgor yn fodlon bod plant a phobl ifanc Sir y Fflint wedi elwa ar gyllid Llywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Gaeaf Llawn Lles.

(b) Bod y Cydbwyllgor yn fodlon â'r trefniadau ar gyfer rhaglen Haf o Hwyl 2022; ac

(c) Cydnabod yr ymatebion a gafwyd wrth gynnal arfarniad cenedlaethol o raglenni Llywodraeth Cymru, a oedd yn dystiolaeth o'u heffaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc.

## 4. DIOGELU MEWN ADDYSG

Rhoes yr Ymgynghorydd Dysgu ar gyfer Iechyd, Lles a Diogelu fraslun o'r prosesau diogelu'r oedd y Cyngor yn eu darparu a chyfraniad y Swyddogion at y Panel Diogelu Addysg ac Ieuenctid a'r Gwasanaethau Plant.  Darparwyd gwybodaeth hefyd ynglŷn â'r blaenoriaethau ar gyfer hyfforddiant diogelu a rhannu gwybodaeth allweddol ag ysgolion er mwyn cadw dysgwyr yn ddiogel.

Darparodd yr Ymgynghorydd Dysgu ar gyfer Iechyd, Lles a Diogelu wybodaeth ynglŷn â phrif bwyntiau canllawiau Llywodraeth Cymru: Diogelu Addysg, a oedd yn cynnwys offeryn archwilio i ysgolion ei ddefnyddio, ac eglurodd fod gan yr holl ysgolion ddyletswyddau statudol, yn enwedig felly ym maes diogelu.  Câi'r holl offerynnau archwilio ac adroddiadau eu hadolygu dros yr haf fel y gellid ymateb i'r themâu allweddol a hwyluso'r hyfforddiant.  Rhoes fraslun o'r hyfforddiant proffesiynol a ddarperid ar y we; bu'r ymateb iddo'n gadarnhaol a defnyddiwyd y sylwadau wrth gynllunio rhaglenni hyfforddiant yn y dyfodol.

Darparwyd gwybodaeth am Gynllun Gweithredu'r Panel Diogelu Addysg ac Ieuenctid, a chadarnhawyd na dderbyniwyd Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru eto.  Esboniwyd sut yr eid ati i sefydlu hyn mewn ysgolion yn barod ar gyfer y tymor newydd ym mis Medi.

Diolchodd yr Uwch-reolwr (Gwella Ysgolion) i'r Ymgynghorydd Dysgu ar gyfer Iechyd, Lles a Diogelu am ei gwaith.  Rhoes sicrwydd i'r Aelodau fod y tîm yn darparu cyngor, hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chefnogaeth ardderchog i ysgolion ac yn eu cyfeirio at wahanol asiantaethau.  Roedd y Panel

Diogelu Addysg ac Ieuenctid yn dod o dan y Panel Diogelu Corfforaethol gan sicrhau y dilynid yr holl brosesau diweddaraf.

Dywedodd y Cynghorydd Teresa Carberry ei bod wedi gwneud yr hyfforddiant a'i bod yn ei ganmol. Yn dilyn awgrymiadau ynglŷn â phynciau eraill y gellid darparu hyfforddiant ar-lein ar eu cyfer, cytunodd yr Ymgynghorydd Dysgu ar gyfer Iechyd, Lles a Diogelu y byddai'n siarad â'r Cynghorydd Carberry wedi'r cyfarfod.

Argymhellodd y Cynghorydd Bill Crease fod yr holl Aelodau'n gwneud yr hyfforddiant, a rhoes ganmoliaeth i waith y Cyngor. Dywedodd yr Uwch-reolwr (Gwella Ysgolion) fod yr hyfforddiant newydd a'r hyfforddiant gloywi'n ffyrdd ardderchog o ddysgu. Byddai'n hapus i rannu rhywfaint o awgrymiadau ac roedd hi'n agored i unrhyw syniadau am hyfforddiant ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion. Drwy ddarparu'r hyfforddiant ar-lein bu modd darparu mwy o sesiynau.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden nad dim ond mater i ysgolion a'r gwasanaethau cymdeithasol oedd hyn, ond yn hytrach yn rhywbeth i bawb a oedd yn gweithio yn yr awdurdod. Rhoes enghreifftiau o'r pryderon a godwyd mewn ysgolion ynglŷn â chaethwasiaeth fodern, ymddygiad rheolaethol neu gam-drin oedolion bregus. Anogodd Gynghorwyr i fanteisio ar y cyfle i wneud yr hyfforddiant a magu gwell dealltwriaeth o'r materion perthnasol yn Sir y Fflint. Diolchodd i'r swyddogion a oedd yn ymdrin â'r materion hyn bob dydd mewn ysgolion a phob rhan o'r Cyngor.

Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) ei fod ef a'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yn gyd-gadeiryddion ar y Panel Diogelu Corfforaethol. Anogodd yr Aelodau i wneud yr hyfforddiant diogelu corfforaethol er mwyn meddu ar yr holl wybodaeth wrth benderfynu. Bu cynnydd mawr mewn adroddiadau yn ystod y pandemig, yn enwedig felly ynglŷn ag oedolion bregus, a byddai'r hyfforddiant yn galluogi'r Aelodau i gael dealltwriaeth gyflawn o'r sefyllfaoedd hynny. Awgrymodd yr Uwch-reolwr (Diogelu a Chomisiynu) rannu rhifau ffôn a gwybodaeth am ddiogelu ag Aelodau'r Cydbwyllgor wedi'r cyfarfod.

Soniodd y Cadeirydd am flynyddoedd a fu pan roddwyd posteri mewn toiledau ysgolion uwchradd gyda manylion cyswllt i ddisgyblion a deimlai dan fygythiad, a holodd a oedd hynny'n dal yn digwydd. Cytunodd yr Ymgynghorydd Dysgu (Iechyd, Lles a Diogelu) y byddai'n holi ynglŷn â hynny ac yn sicrhau y darperid gwybodaeth am atgyfeiriadau mewn mannau amlwg mewn ysgolion.

Holodd y Cynghorydd Carolyn Preece ynglŷn â hyfforddiant diogelu gorfodol a'r botwm diogelu, a dywedodd yr Uwch-reolwr (Diogelu a Chomisiynu) fod yno fotwm diogelu y gallai pawb ei bwyso ynghyd â rhif ffôn. Y ffordd orau o godi unrhyw bryderon oedd llenwi'r ffurflen adrodd ar gyfer diogelu, a chytunodd y byddai'n rhannu gwybodaeth ynglŷn â hynny. Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Dysgu ar gyfer Iechyd, Lles a Diogelu y byddai disgwyl i swyddog arweiniol diogelu neu lywodraethwr oedd wedi gwneud hyfforddiant lefel 3 ail-wneud yr hyfforddiant bob dwy flynedd. Cynhelid hyfforddiant lefel 2 bob tair blynedd, ond yr arfer orau oedd darparu'r cwrs i holl staff yr ysgol unwaith y flwyddyn.

Rhoes y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles wybodaeth am yr achosion aeth gerbron y Panel Diogelu Corfforaethol o bob rhan o'r sir. Awgrymodd bod Aelodau'n lawrlwytho'r ap ar gyfer Gweithdrefnau Diogelu Cymru gan ei fod yn egluro'r holl weithdrefnau i blant ac oedolion ac yn rhwydd iawn ei ddefnyddio. Roedd yn cynnwys llawer o wybodaeth berthnasol ac yn werth ei gael ar eich ffôn. Roedd yr hyfforddiant yn syml i'w gwblhau ac nid oedd yn cymryd llawer o amser.

Roedd Mrs Lynn Bartlett yn falch fod yr hyfforddiant yn cynnwys aflonyddu rhywiol gan gyfoedion mewn ysgolion uwchradd, ac awgrymodd fod y Cydbwyllgor yn derbyn adroddiad ynghylch Perthnasoedd ac Addysg Rhyw er mwyn darparu gwybodaeth am y modd yr oedd hyn yn cyfrannu at leihau niwed. Roedd y Cydbwyllgor o blaid yr awgrym hwnnw.

Cynigiodd y Cynghorydd Bill Crease ddilyn yr argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad ac eiliodd y Cynghorydd Teresa Carberry y cynnig hwnnw.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi cynnwys yr adroddiad ynghylch diogelu mewn addysg.

## 5 Y STRATEGAETH COMISIYNU LLEOLIADAU

Cyflwynodd yr Uwch-reolwr (Plant a'r Gweithlu) y Strategaeth Comisiynu Lleoliadau a oedd yn pennu uchelgeisiau'r Cyngor a'i gynlluniau i gefnogi plant oedd yn derbyn gofal yn lleol, gan gynnwys rhoi cefnogaeth i rieni a theuluoedd i ddarparu cartrefi diogel a chariadus yn Sir y Fflint. Byddai angen gofal maeth a gofal preswyl ar rai plant a phe byddai modd eu cadw yn Sir y Fflint gallant gadw eu ffrindiau, aros yn yr un ysgolion a chadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd. Roedd hi hefyd yn haws i swyddogion yr awdurdod gynnal y gefnogaeth ac ennyn ymddiriedaeth os oedd y plant yn aros yn Sir y Fflint, ac arweiniai hynny at well canlyniadau. Byddai'n rhaid i rai plant, serch hynny, symud o Sir y Fflint er eu diogelwch a'u lles eu hunain.

Rhoes yr Uwch-reolwr (Plant a'r Gweithlu) wybodaeth fanwl am y dull "*Mockingbird*" o faethu ac eglurodd sut roedd y tair o ganolfannau'n dod â gofalwyr maeth ynghyd mewn clystyrau i gefnogi ei gilydd. Soniodd am broblemau recriwtio gofalwyr maeth a bod yr awdurdod yn dibynnu ar asiantaethau maethu annibynnol, masnachol. Roedd yr asiantaethau masnachol hynny'n recriwtio eu gofalwyr maeth eu hunain ac roedd yn rhaid i'r awdurdod brynu'r lleoliadau ganddynt am bris llawer drutach. Argymhellodd bod yr Aelodau'n ymweld ag Arosfa, cartref preswyl wedi'i reoli gan *Action for Children*, a oedd yn darparu gofal seibiant i blant ag anableddau, a soniodd am y gefnogaeth a ddarperid yno. Hon oedd yr unig ganolfan gofal preswyl a ddarperid yn fewnol ac roedd y Cyngor yn dibynnu'n llwyr ar y sector annibynnol. Soniodd am y lleoliadau yn y sector annibynnol yn Sir y Fflint a oedd wedi gweithio'n dda ac arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Rhoes fraslun o'r rhaglen ar gyfer datblygu cartrefi gofal preswyl, gan gynnwys dau ohonynt oedd ar y gweill yn yr Wyddgrug.

Roedd y Strategaeth yn pennu uchelgais y Cyngor ar gyfer y tair blynedd nesaf, a oedd yn gyson ag uchelgais Llywodraeth Cymru i wneud i ffwrdd ag elw ym maes gofal cymdeithasol i blant. Darparwyd gwybodaeth ynglŷn â chyllid, y templed a gweithio mewn partneriaeth, yn ogystal â nifer y gofalwyr maeth a lleoliadau a fyddai'n ofynnol i gyflawni hyn.

Holodd y Cynghorydd Gina Maddison pam fod pobl yn dewis asiantaethau annibynnol yn hytrach na'r Cyngor, a chadarnhaodd yr Uwch-reolwr (Plant a'r Gweithlu) fod yr asiantaethau hynny'n codi mwy o arian ar yr awdurdod ac yn talu mwy i ofalwyr maeth. Roedd yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru'n cydweithio i ddatblygu brand a rhoes wybodaeth fanwl ynglŷn â'r gwaith oedd yn mynd yn ei flaen.

Holodd y Cadeirydd ynglŷn â gofalwyr a ddewisai ofalu am frodyr a chwiorydd, a chadarnhaodd yr Uwch-reolwr (Plant a'r Gweithlu) y cynigid amryw gymhellion ar gyfer hynny gan fod y Cyngor yn gyflogwr oedd yn ystyriol o faethu, ac esboniwyd y rheiny ynghyd â chynlluniau eraill oedd ar gael i gefnogi brodyr a chwiorydd.

Gofynnodd y Cynghorydd Gladys Healey gwestiwn ynglŷn â therfyn oedran ar gyfer gofalwyr maeth a chadarnhaodd yr Uwch-reolwr (Plant a'r Gweithlu) nad oedd unrhyw derfyn a bod y drefn yn gwbl gynhwysol; y peth pennaf oedd canfod y lleoliad mwyaf addas i'r plentyn.

Holodd y Cynghorydd Andy Hughes ynglŷn â'r gwahaniaethau yn y drefn i ddarparwyr preifat a'r Cyngor, a chadarnhaodd yr Uwch-reolwyr y defnyddiwyd yr un asesiadau. Roedd yno wahanol drothwyon, yn enwedig felly ynghylch sgiliau a gwytnwch, a olygai fod ymgeiswyr y'u barnwyd yn anaddas gan yr awdurdod yn cael eu derbyn gan asiantaethau annibynnol, ond ychwanegodd fod yno ofalwyr ardderchog yn yr asiantaethau maethu annibynnol. Roedd yr asiantaethau maethu annibynnol weithiau'n prosesu ceisiadau'n gynt, ond teimlid fod yno anfanteision yn hynny o beth gan fod angen sicrhau fod y gofalwyr maeth yn hollol barod ar gyfer lleoliadau. Darparodd wybodaeth ynglŷn â'r raddfa amser a gweithdrefnau'r panel.

Soniodd y Cynghorydd Dave Mackie ei fod yn aelod o'r Panel Gofal Maeth a bod gofalwyr maeth yn cael eu gweld cyn diwedd y cyfnod o chwe mis. Roedd hi'n dibynnu ar y wybodaeth yr oedd y gofalwyr maeth yn ei darparu a'r adegau'r oeddent ar gael i ddod i'r panel, ac roedd rhai pobl yn mynd drwy'r drefn yn eithaf chwim.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden fod Swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio dan amgylchiadau anodd iawn wrth orfod penderfynu a ddylid mynd â phlant oddi wrth eu teuluoedd. Roedd y plant dan sylw wedi profi trawma yn ystod eu plentyndod ar roedd yn rhaid i'r Cyngor eu cefnogi. Roedd yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud i ffwrdd ag elw ym maes gofal cymdeithasol i blant.

Soniodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst ynglŷn â safon gofalwyr maeth yr asiantaethau maethu annibynnol, a holodd a oedd y canlyniadau i blant maeth yn cael eu mesur er mwyn cymharu'r ddarpariaeth fewnol â'r sector preifat.

Eglurodd yr Uwch-reolwr (Plant a'r Gweithlu) fod yno fframwaith cymeradwy yng Nghymru a bod yn rhaid i'r Cyngor ei ddefnyddio wrth brynu lleoliadau. Rheolwyd y drefn gan Gonsortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru ac roedd yn rhaid i'r holl ddarparwyr gofrestru â'r corff hwnnw. Gweithredid dulliau sicrhau ansawdd cyn cofrestru ac roedd y Consortiwm yn rheoli'r drefn o wirio prosesau a sefyllfaoedd ariannol y darparwyr. Pe byddai'r Cyngor yn methu â chynnig lleoliad i blentyn, trosglwyddid y wybodaeth i'r system fel y gallai darparwyr annibynnol gynnig lle. Roedd yn rhaid i'r Cyngor gynnal diwydrwydd dyladwy wedi hynny, ac roedd wedi datblygu ei fframwaith ei hun er mwyn sicrhau bod lleoliadau'n ddiogel ac yn briodol a bod y darparwyr wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Pryderai'r Cynghorydd Parkhurst a archwilid cefndir gofalwyr maeth er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r safon ofynnol. Cadarnhaodd yr Uwch-reolwr (Plant a'r Gweithlu) yr archwilid proffil yr unigolyn ifanc ac y cynhelid gweithdrefnau sicrhau ansawdd i weld a oedd y gofalwr maeth yn cynnig y lleoliad mwyaf addas i'r plentyn. Roedd Swyddogion Adolygu Annibynnol yn adolygu'r canlyniadau ar gyfer pob plentyn ac yn monitro'r lleoliad am y 28 diwrnod cyntaf i weld a fodlonid eu hanghenion. Yn ogystal â hynny, roedd y gweithwyr cymdeithasol yn ymweld bob chwech wythnos ac roedd y gofalwyr maeth yn cymryd rhan yn yr adolygiad, gan gael eu dal i gyfrif am y gofal a ddarperid ganddynt.

Dywedodd y Cynghorydd Tina Claydon ei bod wedi ymweld â Thŷ Neath, a oedd yn ardderchog, a holodd a oedd unrhyw fwriad i adeiladu mwy o unedau fel hyn yn y dyfodol. Rhoes yr Uwch-reolwr (Plant a'r Gweithlu) wybodaeth ynglŷn â'r hyn y gobeithid ei gyflawni yn Nhŷ Neath, yr adeilad y drws nesaf ac adeilad arall a gyflwynwyd i Arolygiaeth Gofal Cymru er cymeradwyaeth yn ddiweddar. Gwnaed cais i Lywodraeth Cymru i wneud mwy o waith adnewyddu, a rhoes yr Uwch-reolwr fraslun o'r drefn ymgeisio, y dull o asesu lleoliadau a'r graddfeydd amser.

Dywedodd y Cynghorydd Andy Hughes ei bod yn hollbwysig dod â mwy o wasanaethau'n ôl yn fewnol, a gofynnodd am wybodaeth ynglŷn â lefelau staffio presennol ymysg gweithwyr cymdeithasol. Cadarnhaodd yr Uwch-reolwr (Plant a'r Gweithlu) ei bod yn arbennig o heriol recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol plant, a rhoes wybodaeth am y bylchau mewn gofal cymdeithasol ymhob cwr o Gymru a'r Deyrnas Gyfunol. Roedd rhaglen yn mynd rhagddi i ddatblygu staff mewnol ynghyd â rhaglen recriwtio lwyddiannus, a defnyddiwyd staff asiantaeth yn y tymor byr oherwydd heriau'n recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol Lefel 3. Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) fod prinder cenedlaethol o weithwyr cymdeithasol a staff rheng flaen ym maes gofal plant statudol, a bod yr holl awdurdodau'n ei chael yn anodd iawn recriwtio staff a'u cadw y tu hwnt i bum mlynedd wedi iddynt gymhwyso. Roedd yr awdurdod yn ymchwilio i gyflogau, gwell ffyrdd o ddefnyddio gweithwyr cymdeithasol asiantaeth a gweithio â phartneriaid ac awdurdodau cyfagos. Gofynnodd i'r aelodau am gymorth wrth hyrwyddo'r gwasanaeth er mwyn sicrhau y cynhelid enw da'r Cyngor cystal â phosib.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n gweithio i sefydlu graddfeydd cyflogau cenedlaethol yng Nghymru a fyddai o gymorth wrth

oresgyn yr heriau o recriwtio a chadw staff. Soniodd am y gwaith yr oedd y Cabinet yn ei wneud ag uwch-swyddogion yn hyn o beth.

Cynigiodd y Cynghorydd Carolyn Preece ddilyn yr argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad ac eiliodd y Cynghorydd Gladys Healey y cynnig hwnnw.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cydbwyllgor o blaid y cynlluniau ar gyfer comisiynu yn y dyfodol fel y manylwyd yn eu cylch yn y Strategaeth Comisiynu Lleoliadau a gyflwynid i Lywodraeth Cymru.

## 6. DEDDF ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A'R TRIBIWNLYS ADDYSG (CYMRU) 2018

Eglurodd yr Uwch-reolwr (Ymgynnwys a Chynnydd) y prif bwyntiau yn yr adroddiad, gan sôn fod Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2008 wedi dod i rym yn 2008, ond heb ei gweithredu'n llawn nes Medi 2021.

Byddai'r cyfundrefnau Anghenion Addysgol Arbennig ac Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gweithredu ochr yn ochr am dair blynedd. Darparwyd gwybodaeth ynglŷn â'r prosesau ar gyfer adnabod a oedd gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol a symud plentyn o un gyfundrefn i'r llall, ac esboniwyd y Cynlluniau Datblygu Unigol. Ers cyhoeddi'r Cod bu modd sefydlu prosesau a phaneli ar gyfer adnabod a oedd gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol a gweithredu'r Cynlluniau Datblygu Unigol.

Dywedodd yr Uwch-reolwr (Ymgynnwys a Chynnydd) fod y Cod yn pennu nifer o swyddogaethau statudol, gan gynnwys creu swyddi Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn ysgolion a'r Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y Blynyddoedd Cynnar â chyfrifoldeb am blant cyn ysgol. Rhoddwyd braslun o'r system ECLIPSE a oedd yn sicrhau bod ysgolion a'r awdurdod yn cyflawni eu cyfrifoldebau ac yn bodloni'r gofynion newydd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Darparwyd gwybodaeth ynglŷn â'r hyfforddiant a ddarperid i ysgolion, y gofynion newydd a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn ysgolion, yn ogystal â newidiadau ar gyfer dysgwyr ôl-16.

Cadarnhaodd yr Uwch-reolwr (Ymgynnwys a Chynnydd) ei bod yn aelod o'r Grŵp Llywio Cenedlaethol a sefydlwyd i gynorthwyo Cynghorau â'r Ddeddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg a sicrhau bod y gwaith o ddatblygu cynllun ariannu ôl-16 yn deg i'r holl awdurdodau lleol. Cadarnhaodd yr heriwyd Llywodraeth Cymru ynglŷn â niwtraliaeth costau'r ddeddfwriaeth ADY newydd, gan gynnwys llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor hwn, ac yn sgil hynny bod Llywodraeth Cymru bellach yn darparu ychwaneg o gyllid am dair blynedd i gynghorau ac ysgolion. Rhannwyd mwy o wybodaeth hefyd am y modd y bwriedid defnyddio'r grant.

Soniodd yr Uwch-ymgynghorydd Dysgu ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol fod teuluoedd ac ysgolion wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i'r system a'r prosesau newydd. Bu mwy o gydweithio â'r Cydlynwyr ADY, plant a

phobl ifanc a rhieni, yn unol ag egwyddorion y Cyngor. Roedd yr ymateb yn galonogol.

Mynegodd y Cynghorydd Save Mackie bryderon y gallai hyn droi'n broses lafurus a drud i ysgolion. Soniodd am ganllawiau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r prosesau ar gyfer dysgwyr ôl-16 a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ac awgrymodd bod y Cydbwyllgor yn derbyn adroddiad ynglŷn â'r dull o adnabod anghenion a chomisiynu addysg ôl-16 ar gyfer pobl ifanc Sir y Fflint. Roedd y Pwyllgor o blaid yr awgrym hwn.

Cadarnhaodd yr Uwch-reolwr (Ymgynnwys a Chynnydd) y byddai'r cyllid dan adolygiad parhaus, a rhoes wybodaeth am gyfarfodydd y fforwm y bu swyddogion a gweinidogion Llywodraeth Cymru'n bresennol ynddynt er mwyn sicrhau fod hyn yn ganolog i'r trafodaethau. Rhoes wybodaeth fanwl am gyfarfodydd y gweithgor rhanbarthol ôl-16 a'r dull gweithredu 'llifo drwodd', a chytunodd i ddod ag adroddiad gerbron y Cydbwyllgor yn fuan.

Holodd Mrs Lynn Bartlett a oedd yr holl blant yn symud o un system i'r llall, ynteu a oedd rhai o'r plant nad oeddent yn bodloni'r meini prawf. Roedd hi'n falch hefyd bod Iechyd yn cynorthwyo â hyn, yn enwedig felly gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar. Cadarnhaodd yr Uwch-ymgynghorydd Dysgu ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol fod y diffiniad o Anghenion Dysgu Ychwanegol yn eithaf tebyg i Anghenion Addysgol Arbennig, ond y gallai rhai disgyblion bellach dderbyn cymorth drwy ddarpariaeth gyffredinol yr ysgol heb fod angen Cynllun Datblygu Unigol. Eglurodd y gallai fod llai o blant yn cael eu hadnabod yn ffurfiol ag ADY, ond fod ysgolion bellach yn cynnwys rhieni a theuluoedd yn fwy yn y penderfyniadau hyn, a'r flaenoriaeth oedd sicrhau y bodlonid anghenion yr unigolion dan sylw. Cadarnhaodd y bu cysylltiadau da â chydweithwyr iechyd erioed.

Holodd y Cadeirydd ynglŷn â hawl rhieni i apelio, a dywedodd yr Uwch-ymgynghorydd Dysgu ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol fod rhieni'n dal â'r hawl i apelio, a bod plant a phobl ifanc yn meddu ar yr un hawl. Pe byddai rhieni neu blant yn anfodlon ag asesiad/penderfyniad yr ysgol neu'r Cynllun Datblygu Unigol, y cam cyntaf iddynt fyddai cysylltu â'r awdurdod. Byddai'r awdurdod yn ystyried y mater ac os cadarnheid y penderfyniad/cynllun heb gynnig unrhyw newidiadau, byddai gan y rhieni neu'r plentyn hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru.

Cynigiodd y Cynghorydd Carolyn Preece ddilyn yr argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad, ac eiliodd Mrs Lynn Bartlett y cynnig hwnnw.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn derbyn ac yn ystyried yr adroddiad ynghylch Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

## 7. PLANT SY'N DERBYN GOFAL YN SIR Y FFLINT

Rhoes yr Uwch-reolwr (Ymgynnwys a Chynnydd) fraslun o'r uchafbwyntiau yn y cyfnodau allweddol a'r cysylltiadau â gofal cymdeithasol.

Nodwyd y ganran o ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn y garfan dan sylw, ynghyd â nifer y disgyblion â Chynlluniau Datblygu Unigol yr oedd yr awdurdod yn gyfrifol amdanynt, a oedd wedi newid yn ddiweddar. Roedd y Swyddog Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) â chyfrifoldeb am blant sy'n derbyn gofal wedi creu map ac amserlen ar gyfer y plant hynny er mwyn sicrhau fod yr awdurdod yn asesu eu hanghenion yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd. Soniodd am swyddogaethau'r Cydlynydd Dysgwyr Agored i Niwed a'r Rheolwr Gwasanaeth a oedd yn gweithio â phlant sy'n derbyn gofal, ysgolion a gofalwyr maeth er mwyn sicrhau fod y plant yn cael eu haddysg. Roedd y rhan helaeth o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu haddysg mewn ysgolion prif ffrwd yn Sir y Fflint a dim ond mwyafrif bychan ag angen darpariaeth fwy arbenigol.

Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn am goladu data canlyniadau'r plant hynny oedd wedi gadael yr ysgol y llynedd, ond cofnodwyd data pen y daith, a rhoes wybodaeth ynglŷn â hynny. Manylodd yr Uwch-reolwr (Ymgynnwys a Chynnydd) ynghylch y Grŵp Llywio a'r cyllid oedd ar gael i gefnogi'r plant dan sylw, yn ogystal â'r dull ysgol rithiol yr oedd Llywodraeth Cymru wrthi'n ei ystyried.

Soniodd y Cadeirydd am effaith darparu cyllid yn uniongyrchol i blant sy'n derbyn gofal wrth iddynt adael gofal, fel yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi, a holodd a oedd y swyddogion o'r farn y byddai hyn yn newid er gwell, ynteu a gredant y byddai'n cael effaith andwyol ar bobl ifanc. Awgrymodd yr Uwch-reolwr (Plant a'r Gweithlu) bod y Cydbwyllgor yn derbyn adroddiad ymhen 12 mis ynglŷn â'r heriau a'r agweddau cadarnhaol ar y cynllun peilot, a'r modd y cefnogid pobl ifanc.

Holodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst ynglŷn â'r ganran o blant sy'n derbyn gofal ag anghenion addysgol arbennig, a dywedodd yr Uwch-reolwr (Ymgynnwys a Chynnydd) ei bod yn anodd barnu a oedd hi'n ofynnol i blant dderbyn gofal oherwydd eu hanghenion arbennig ynteu a oeddent yn datblygu anghenion arbennig oherwydd eu bod yn derbyn gofal, ac yn ôl pob tebyg ei bod yn gymysgedd o'r ddau. Cytunodd y byddai'n siarad â chydweithwyr yn y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a allai wybod am waith ymchwil perthnasol. Rhoes sicrwydd fod yno lawer o wasanaethau addysg a gofal cymdeithasol yn cynorthwyo plant a bod y gefnogaeth yn amrywio o un plentyn i'r llall.

Cynigiodd y Cynghorydd David Mackie ddilyn yr argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad ac eiliodd y Cynghorydd Bill Crease y cynnig hwnnw.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod yr Aelodau'n ymroi i fod yn Rhieni Corfforaethol i Blant sy'n Derbyn Gofal, gan hybu ymwybyddiaeth a herio'r ddarpariaeth yn sefydliadau addysgol Sir y Fflint; a

(b) Bod yr Aelodau'n mynd ati i annog yr holl staff addysgol i hyrwyddo lles addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal yn sefydliadau Sir y Fflint ar 'lefel ysgol gyfan'.

## 8. <u>Y WYBODAETH DDIWEDDARAF YNGHYLCH URDDAS MISLIF</u>

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Dysgu ar gyfer Iechyd, Lles a Diogelu'r adroddiad, a oedd yn egluro sut y defnyddid cyllid Llywodraeth Cymru i sicrhau y gallai'r holl ddisgyblion gael gafael ar y nwyddau angenrheidiol. Rhoes fraslun o Gynllun Gweithredu Strategol Pum Mlynedd Llywodraeth Cymru a gyhoeddid cyn hir.

Rhoddwyd braslun o'r grantiau a ddarperid i awdurdodau lleol ac ysgolion a gwybodaeth am sut y dosberthid y nwyddau. Roedd y cyllid wedi cynyddu ac roedd gofyn bellach bod 50% o'r nwyddau'n rhai ecogyfeillgar, a darparwyd gwybodaeth hefyd am y contract a'r nwyddau a gyflenwyd.

Rhoes yr Ymgynghorydd Dysgu ar gyfer Iechyd, Lles a Diogelu wybodaeth am y contract "*Hey Girls*" a gomisiynwyd i ddarparu nwyddau'r oedd disgyblion yn eu dethol ac a gâi eu hanfon i'w cartrefi. Gosodwyd mwy na 2,000 o archebion ac roedd yr adroddiad yn cynnwys braslun o'r nwyddau dan sylw a'r grwpiau blwyddyn a dderbyniai gefnogaeth. Eglurodd fod nwyddau ecogyfeillgar ar gael a bod Llywodraeth Cymru'n mynnu fod 90% o'r holl nwyddau'n rhai ecogyfeillgar. Roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi rhywfaint o hyblygrwydd eleni fel y gellid defnyddio'r cyllid i hyfforddi athrawon mewn ysgolion ynglŷn â'r glasoed ac oedrannau addas. Byddai'r Cod ar gyfer perthnasoedd a rhywedd yn dod i rym ym mis Medi mewn ysgolion a threfnwyd nifer o weithdai i sicrhau fod yr athrawon yn barod. Rhoddwyd braslun o'r cyllid ar gyfer eleni gan gynnwys y cynlluniau i ymestyn y gwaith gyda "*Hey Girls*". Roedd gwell darpariaeth hefyd ar gyfer clybiau ieuenctid, banciau bwyd, ffoaduriaid a chanolfannau cymunedol, ac roedd modd i blant a phobl ifanc 8 - 18 oed archebu ar-lein.

Rhoes y Cynghorydd Paul Cunningham ganmoliaeth i'r adroddiad a dywedodd y dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i hyn er mwyn cefnogi disgyblion hynny na fedrent fforddio prynu'r nwyddau.

Dywedodd y Cynghorydd Teresa Carberry ei fod yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a bod mwy o drafodaeth agored am y mislif mewn ysgolion wrth addysgu pynciau mewn grwpiau cymysg eu rhyw. Roedd hi'n falch bod staff yn cael hyfforddiant i ddarparu hyn a dywedodd ei bod yn fendigedig bod y nwyddau ar gael yn yr ysgolion.

Rhoes y Cynghorydd Carolyn Preece ganmoliaeth i'r adroddiad ac roedd hi'n croesawu defnyddio nwyddau ecogyfeillgar.

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Cunningham ddilyn yr argymhelliad a nodwyd yn yr adroddiad ac eiliodd y Cynghorydd Teresa Carberry y cynnig hwnnw.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Bod y Cydbwyllgor yn fodlon y gwariwyd y grant yn briodol a'i fod wedi helpu i fodloni anghenion y rhai hynny yr anelwyd cynllun Llywodraeth Cymru atynt.

**9. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 4.48pm)

**……………………………**
**Y Cadeirydd**